# Adroddiad Data Diogelwch Cymunedol Ionawr 2026

## Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**72** o atgyfeiriadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ym mis Ionawr 2026

**73** o atgyfeiriadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ym mis Ionawr 2025

Gostyngiad o **2%**

**77** o ddigwyddiadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ym mis Ionawr 2026


Mae nifer y digwyddiadau wedi gostwng **25%** o fis Ionawr 2025

**77** Digwyddiadau Ionawr 2026

**90 Rhagfyr 2025**

**103** Digwyddiadau Ionawr 2025

**14%** o ostyngiad ers Rhag 2025




Wrth batrolio ym Mhenarth, ymgysylltodd y Swyddog Diogelwch Cymunedol â pherchennog busnes lleol a adroddodd fod dau berson ifanc wedi achosi aflonyddwch yn yr arcêd y diwrnod cynt, gan arwain at ddigwyddiad swnllyd a gofidus. Dywedodd y perchennog ei fod wedi ceisio adrodd am y mater drwy 101 ond rhoddodd y gorau i'r alwad ar ôl aros 45 munud.


Rhoddodd y Swyddog Diogelwch Cymunedol arweiniad ar sut i adrodd am ddigwyddiadau ar-lein, a oedd yn ddefnyddiol i'r perchennog. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad ar-lein, cafodd y ddau berson ifanc eu nodi a'u cyfeirio trwy'r broses ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan egluro canlyniadau eu gweithredoedd yn glir iddynt.

## Teledu Cylch Cyfyng

Yn ystod Ionawr **62** cafodd o ddigwyddiadau ym Mro Morgannwg eu cofnodi ar deledu cylch cyfyng.

Mae'r camerâu teledu cylch cyfyng yn cynorthwyo'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol gyda'u hymchwiliadau. Y digwyddiadau mwyaf cyffredin oedd:

- **Ymddygiad Ymosodol / Treisgar**
- **Pryder am Les**
- **Person Coll**
- **Ynglŷn ag Ymddygiad**
- **Digwyddiadau Cerbydau**




**51** Ionawr 2025


**22%** o gynnydd ers Ionawr 25

*Ffurfiodd Cyngor Bro Morgannwg bartneriaeth â Chyngor Caerdydd a Heddlu De Cymru i wella effeithiolrwydd monitro teledu cylch cyfyng ar draws y rhanbarth. Mae'r camerâu teledu cylch cyfyng yn cael eu monitro 24/7 gan weithredwyr teledu cylch cyfyng hyfforddedig yng Nghyngor Caerdydd.*

## Community Cohesion

Mae Cydlyniant Cymunedol yn golygu gweithio gydag asiantaethau statudol, y trydydd sector a chymunedau i helpu i wneud y Fro yn lle mwy diogel i fyw ac i leihau'r ofn o droseddau. Fel rhan o'r rôl, mae tensiynau o fewn y gymuned yn cael eu monitro.

**Tensiynau Cymunedol**




Trafodwyd yr atgyfeiriadau gyda'r heddlu lleol a phartneriaid yn y grŵp datrys problemau misol.

## Ymgysylltu â’r Gymuned



Ym mis Ionawr, treuliodd y Swyddog Cydlyniant Diogelwch Cymunedol amser yng Nghaffi Lles Renew yn Llanilltud Fawr, yng nghwmni Ymgynghorydd Tactegol Lleihau Troseddau Heddlu De Cymru.

Gyda'i gilydd, fe wnaethant annog trigolion lleol i adrodd am unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol maen nhw'n dyst iddo a thynnu sylw at sut mae adroddiadau o'r fath yn helpu i amddiffyn a chryfhau'r gymuned ehangach. Fe wnaethant ddarparu cyngor ymarferol, hygyrch hefyd ar adnabod sgamiau a thwyll fasnachwyr, gan gefnogi trigolion i ofalu amdanynt eu hunain a'u cymdogion.

Fe wnaeth yr ymgysylltiad hwn gynnig cyfle gwerthfawr i wrando, rhannu profiadau, a pharhau i adeiladu Llanilltud Fawr mwy diogel a chefnogol i bawb.


## CAAR (Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg)

Mae'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (CAAR) wythnosol yn cynnwys yr holl bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio gyda'i gilydd i greu cynllun gweithredu ar gyfer dioddefwyr trais domestig a'u teuluoedd.

Roedd plant yn bresennol yn ystod y digwyddiad mewn **46%** o’r achosion a drafodwyd.

Roedd **85%** o’r achosion a drafodwyd wedi’u hatgyfeirio gan Heddlu De Cymru.

Roedd gan **31%** o achosion a drafodwyd gysylltiad â Chamddefnyddio Sylweddau.




**52%** o ostyngiad yn dilyn cyflwyno proses newydd o adolygu atgyfeiriadau.

Achosion a drafodwyd yn CAAR mis Ionawr 2026 o'i gymharu â Ionawr 2025

Clare’s Law
The Domestic Violence Disclosure Scheme

**30** Ceisiadau Ionawr 2025

**26** Ionawr 2025

**Sut i gyflwyno cais Cyfraith Clare**
- Drwy ffonio 101 a gofyn am wneud Cais DVDS Drwy
- Fynd i’ch Gorsaf Heddlu Leol a gofyn am wneud cais DVDS
- Ar-lein www.police.uk a chwilio 'Request Clare’s Law'

## Gwella Diogelwch

Gwella Diogelwch yw pan fyddwn yn gosod diogelwch ychwanegol - teledu cylch cyfyng, larymau lladron, cloeon drysau neu ffenestri newydd - i helpu dioddefwr cam-drin domestig i aros yn eu cartref yn ddiogel.

**8** o atgyfeiriadau Gwella Diogelwch ym mis Ionawr 2026
**6** o atgyfeiriadau Gwella Diogelwch ym mis Ionawr 2025

Cynnydd o **33%**

## Ymgysylltu â’r Cyfryngau Cymdeithasol

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am Ddiogelwch Cymunedol a digwyddiadau ymgysylltu sydd ar y gweill

+20 o ddilynwyr newydd

**Facebook**
**VoG Community Safety**
**79** o Bostiadau Ionawr 26
**74** o Bostiadau Ionawr 25

**Instagram**
**@VoGCommunitySafety**
**79** o Bostiadau Ionawr 26
**74** o Bostiadau Ionawr 25

**97** achos o ryngewithio ar draws y ddau lwyfan

# Golwg Agosach

## Bro Morgannwg - Tîm Datrysiadau Tai



### Homes4U

- Bron i **8,000** o geisiadau tai cymdeithasol.
- System fandio: **Efydd, Arian, Aur, Aur a Mwy.**
- Blaenoriaeth ar gyfer:

Pobl mewn **llety dros dro**
Y rhai hynny mewn **lloches**
**Pobl ifanc** mewn llety symud ymlaen

- Trosiant uchel mewn eiddo i bobl **dros 55 oed.**




### Datrysiadau Tai / Digartrefedd

- Cefnogi unrhyw un sydd mewn **risg o ddigartrefedd.**
- Symud pobl i **lety dros dro** pan nad yw atal yn bosibl.
- Mae tua **300 o unedau llety dros dro**, gan gynnwys **90** yn Eagleswell Road, Llanilltud Fawr
- Cynyddodd y galw am gymorth tai yn sgil y newidiadau cyfreithiol ar ôl Covid.
- **Amseroedd aros nodweddiadol:**

Aelwydydd sengl: **18+ mis**
2 ystafell wely gyda phlant: ~**2 fis**
3 ystafell wely: **gellid ei gartrefu drannoeth**
4 ystafell wely: **dim ond hyn a hyn o leoedd sydd ar gael**

### Tîm Rhentu Preifat

- Yn darparu opsiynau **rhentu preifat** ochr yn ochr â thai cymdeithasol.
- Heriau oherwydd bwlch rhwng **Lwfans Tai Lleol** a rhenti'r farchnad.
- Yn cefnogi **teuluoedd sy'n gweithio** yn bennaf; wedi gosod **60+ o aelwydydd** yn y flwyddyn ddiwethaf.
- Yn gallu cysylltu â landlordiaid i ymuno â chynlluniau'r Cyngor.



### Tîm Llety Dros Dro

- Rheoli stoc gynyddol o **300 o unedau llety dros dro.**
- Prin iawn yw'r llety gwag ar unrhyw adeg.
- Mae unedau fel arfer yn cael eu llenwi yn syth ar ôl i aelwydydd symud ymlaen.

- Mae gweithwyr achos yn rheoli **40–60** o achosion yr un.
- Mae pawb mewn llety dros dro yn aros am lety parhaol; mae rhestrau aros ar gyfer llety dros dro yn cael eu rheoli o fewn amserlenni gofynnol.
- Gall ymgeiswyr o siroedd eraill wneud cais trwy **Homes4U**; mae'r flaenoriaeth yn cynyddu gyda **chysylltiad lleol.**
- Mae cartrefu teuluoedd mwy yn arbennig o heriol, ond mae ymdrechion sylweddol yn parhau.